

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
23/04/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

- 1 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Questions to the Counsel General and Leader of the House
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Questions to the Minister for Rural Affairs

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Questions to the Counsel General and Leader of the House

Judiciary of England and Wales

Barnwriaeth Cymru a Lloegr

Q2 Sandy Mewies: What recent discussions has the Counsel General had with the judiciary of England and Wales? OAQ(3)0100(CGE) *Transferred for written answer.*

C2 Sandy Mewies: Pa drafodaethau diweddar mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda barnwriaeth Cymru a Lloegr? OAQ(3)0100(CGE) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): I met Lord Justice Leveson, the senior presiding judge for England and Wales, together with his predecessor, Lord Justice Thomas, and Mr Justice Roderick Evans, then senior presiding judge for Wales, on 14 November 2007. It is intended that there will be another meeting this summer.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Ar 14 Tachwedd 2007 cefais gyfarfod â'r Arglwydd Ustus Leveson, uwch farnwr gweinyddol Cymru a Lloegr, ynghyd â'r Arglwydd Ustus Thomas, ei ragflaenydd, a Meistr Ustus Roderick Evans sef uwch farnwr gweinyddol Cymru ar y pryd. Y bwriad yw cael cyfarfod arall yn yr haf.

Main Priorities

Prif Flaeroriaethau

Q3 Sandy Mewies: Will the Counsel General make a statement on his main priorities? OAQ(3)0103(CGE) *Transferred for written answer.*

C3 Sandy Mewies: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ei brif flaenoriaethau? OAQ(3)0103(CGE) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Carwyn Jones: I refer you to my response to OAQ(3)0102(CGE).

Carwyn Jones: Yr wyf yn eich cyfeirio at fy ateb i OAQ(3)0102(CGE).

E-coli Public Inquiry

Ymchwiliad Cyhoeddus E-coli

Q4 Huw Lewis: Will the Counsel General

C4 Huw Lewis: A wnaiff y Cwnsler

make a statement on any discussions he has held with other law officers in relation to the recent e-coli public inquiry? OAQ(3)0098(CGE) *Transferred for written answer.*

Cyffredinol ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda swyddogion y gyfraith eraill yng nghyswllt yr ymchwiliad cyhoeddus diweddar ar e-coli? OAQ(3)0098(CGE) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Carwyn Jones: I will not be making statements about meetings with law officers.

Carwyn Jones: Ni fyddaf yn gwneud datganiadau am gyfarfodydd gyda swyddogion y gyfraith.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

Economic Wellbeing

Q1 Huw Lewis: Will the Minister make a statement on the measures being undertaken by the Welsh Assembly Government to enhance the economic wellbeing of rural communities? OAQ(3)0298(RAF)

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): 'One Wales' sets out the Government's key aims to deliver a sustainable future for communities across Wales. Our strategic commitments are being delivered through general economic development and associated support measures, as well as specific programmes that, under my portfolio, include the rural development plan for 2007-13.

*Atebwyd cwestiynau 2 i 14 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 2 to 14 were answered in Plenary.*

A Levy Scheme

Q15 Lynne Neagle: What consideration has the Welsh Assembly Government given to the introduction of a levy scheme to insure against future livestock disease outbreaks and similar crises in rural communities? OAQ(3)0268(RAF)

Elin Jones: On 31 March 2008, I launched a public consultation on how responsibility and cost sharing might best be taken forward in Wales. The Welsh farmers' unions and Assembly Government officials continue to sit on the UK industry/Government forum that is tasked with developing detailed proposals for responsibility and cost sharing.

Lles Economaidd

C1 Huw Lewis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella lles economaidd cymunedau gwledig? OAQ(3)0298(RAF)

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Mae 'Cymru'n Un' yn nodi prif amcanion y Llywodraeth i sicrhau dyfodol cynaliadwy i gymunedau ledled Cymru. Mae ein hymrwymiaid strategol yn cael eu cyflawni drwy ddatblygiadau economaidd cyffredinol a mesurau cymorth cysylltiedig yn ogystal â rhaglenni penodol a fyddai, yn fy mhorthfolio i, yn cynnwys cynllun datblygu gwledig 2007-2013.

Cynllun Ardoll

C15 Lynne Neagle: Pa ystyriaeth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i rhoi i gyflwyno cynllun ardoll i yswirio yn erbyn achosion o afiechydon da byw ac argyfyngau tebyg mewn cymunedau gwledig yn y dyfodol? OAQ(3)0268(RAF)

Elin Jones: Ar 31 Mawrth 2008, lansiais ymgynghoriad cyhoeddus ar y ffordd orau o ddatblygu polisi cyfrifoldebau a rhannu costau yng Nghymru. Mae undebau amaethyddol Cymru a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i eistedd ar fforwm diwydiant/Llywodraeth y DU sydd â'r dasg o ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer cyfrifoldebau a rhannu costau.

